Adroddiad ar

Gylch Meithrin Talwrn

Neuadd y Pentref
Talwrn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TG

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Talwrn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Talwrn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Bethan Roberts |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Ruth Edwards |
| Nifer y lleoedd | 20 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 4 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9:00 y.b. – 11:30 y.b. dydd Llun i ddydd Iau |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Nac ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers cofrestru ar 27 Medi 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mai 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 18/03/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

A2. Cynnal cyfarfodydd pwyllgor rheoli ffurfiol yn rheolaidd, gan gynnwys ffocws pendant ar fonitro'r gyllideb

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn fodlon, ac yn ymdopi’n dda wrth adael eu rhieni. Maent yn hyderus wrth wneud dewisiadau am sut maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad ac mae eu dymuniadau’n cael eu parchu gan ymarferwyr. Maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd tu fewn a thu allan yn annibynnol ac yn dewis o’r ystod eang o weithgareddau yn hwylus. . Mae’r plant yn dilyn eu diddordebau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o’u dewis gan fod adnoddau a theganau yn cael eu trefnu’n effeithiol ac o fewn eu cyrraedd.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth rannu syniadau ac ateb cwestiynau syml. Maent yn awyddus i drafod eu profiadau gydag ymarferwyr gan wybod y bydd yr hyn sydd ganddynt i’w ddweud yn cael ei werthfawrogi. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â’r drefn ddyddiol ac mae ganddynt berthynas bositif â’r ymarferwyr, sy’n rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Mae bron bob plentyn yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, sy’n rhoi hyder iddynt rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn awyddus i’r ymarferwyr ddod i weld y patrymau lliwgar maent wedi’u creu wrth chwistrellu paent ar gynfas, ac yn ymfalchïo wrth i’r ymarferwyr werthfawrogi eu hymdrechion yn frwdfrydig.

Mae’r rhan fwyaf o blant wedi dechrau gwneud ffrindiau. Maent yn awyddus i gyfarch ei gilydd ac i sgwrsio yn ystod amser byrbryd ac wrth chwarae. Maent yn rhyngweithio’n dda â’u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda’i gilydd. Er enghraifft, maent yn cydweithio’n llwyddiannus y tu allan wrth geisio llenwi twba gyda dŵr o’r tap. Maent yn sgwrsio a rhoi cyfarwyddyd i’w gilydd ynglŷn â’r ffordd orau i gwblhau’r dasg ac yn cymryd tro i agor a cau y tap. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i rannu adnoddau gyda’u ffrindiau ac yn dysgu medrau cymdeithasol pwysig yn dda. Er enghraifft, pan maent yn palu twll yn yr ardd, maent yn hapus i rannu’r offer ac yn dangos diddordeb yn ymdrechion eu ffrindiau.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau’n dda wrth fynd i’r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn cael llawer o hwyl yn arbrofi yn y gegin fwd wrth ychwanegu pridd, dŵr a dail i’r bowlenni a’r sosbenni er mwyn creu danteithion i’w ffrindiau. Mae bron bob plentyn yn chwilfrydig am y byd o’u cwmpas ac yn mwynhau ymchwilio a defnyddio’u dychymyg. Maent yn chwarae’n ddychmygol yn y tŷ bach twt, yn esgus mynd i weithio yn eu ceir ac yn dychwelyd yn ôl i’r tŷ i gael cinio.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis gweithgareddau'n annibynnol ac yn dilyn eu diddordebau'n bwrpasol. Maent yn datblygu medrau annibynnol da ac yn cyflawni tasgau ymarferol dros eu hunain. Er enghraifft, maent yn gwisgo a thynnu eu siwtiau glaw, yn gweini cinio ar eu platiau ac arllwys eu diodydd eu hunain. Maent yn cymryd cyfrifoldeb dros helpu i lanhau ac am eu hylendid personol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant ac yn hyderus am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae bob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, sy'n eu galluogi i ddarparu triniaeth briodol, pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n fanwl, gan sicrhau bod rhieni'n arwyddo'r cofnodion yn amserol. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n drylwyr. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau pwrpasol er mwyn atal lledaenu heintiau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn dilyn gweithdrefnau addas wrth drin bwyd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach trwy ddarparu byrbrydau iach a maethlon a chynnig dŵr neu lefrith i'r plant. Maent yn hyrwyddo ymarfer corff yn llwyddiannus trwy sicrhau bod cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol ac i dreulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae ymarferwyr wedi ffurfio perthnasoedd ystyrlon â'r plant ac yn modelu medrau rhyngweithio cadarn. Maent yn siarad â'r plant mewn modd caredig ac yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro. Maent hefyd yn cynnig esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn casglu ystod o wybodaeth fuddiol am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi'r ymarferwyr i gynllunio'n effeithiol ar eu cyfer. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol ar waith i

gyfeirio plant yn amserol am gymorth gan asiantaethau allanol ac mae ymarferwyr yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol, lle bo angen. O ganlyniad, mae gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod anghenion bob plentyn yn cael eu diwallu'n effeithiol. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth yn gyson gyda rhieni a gofalwyr dros ap pwrpasol a dros dudalen ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael gwybodaeth gyfredol am ddatblygiad eu plant yn rheolaidd.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau diddorol ac ysgogol ar gyfer y plant sy'n eu galluogi i ddatblygu ystod o fedrau yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd gwahanol wedi eu diffinio'n glir sy'n rhoi mynediad at ystod eang o adnoddau. Caiff yr ardaloedd eu cyfoethogi gan wahoddiadau i ddysgu pwrpasol, fel cyfle i ddatblygu medrau trwy greu pitsa. Mae'r gweithgareddau yn yr ardal tu allan yn diddori'r plant, tra'n darparu cyfleoedd pwrpasol iddynt wneud penderfyniadau am yr hyn yr hoffent ei wneud.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod dda o weithgareddau gwahanol sy'n datblygu medrau corfforol plant. Rhoddir cyfleoedd i blant datblygu medrau modur bras yn llwyddiannus, wrth reidio tractorau, wrth ddringo, ac wrth symud y peiriant cymysgu sment i'r ardal tywod a'i lwytho.

Mae ymarferwyr yn rhoi ffocws arbennig ar ddatblygu medrau Cymraeg y plant. Maent yn defnyddio technegau trochi iaith yn fuddiol, gan fodelu Cymraeg gywir. Maent yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi geirfa plant wrth chwarae ochr yn ochr. Mae hyn yn galluogi plant i ddatblygu eu medrau siarad a gwrando yn effeithiol, beth bynnag eu cefndir ieithyddol. Gwneir defnydd effeithiol o iaith ddwylo i hybu medrau cyfathrebu cynnar yr holl ddisgyblion.

Mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd plant yn briodol, er enghraifft wrth gyfri nifer y bisgedi yn yr ardal tŷ bach twt. Maent yn darparu adnoddau sy'n cynorthwyo plant i ddechrau datblygu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol. Er enghraifft, mae plant yn dewis 'nôl tâp mesur wrth chwarae rôl arolygydd ar y safle adeiladu ac yn gwneud mesuriadau dychmygol. Mae'r gornel dechnoleg yn rhoi mynediad hwylus i'r plant at ystod o adnoddau cyfathrebu gwahanol fel ffôn, cyfrifiannell a theipiadur.

Darperir cyfleoedd buddiol i blant datblygu medrau creadigol. Maent yn mwyhau creu darn o gelf tu allan trwy chwistrellu paent lliwgar ar ddefnydd. Mae ymarferwyr yn adnabod cyfleoedd pwrpasol i blant ddysgu am ddiwylliannau gwahanol trwy eu gweithgareddau creadigol, er enghraifft wrth iddynt addurno dwylo yn ystod y dathliad Diwali.

Mae ymarferwyr yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o sut mae plant ifanc yn dysgu. Maent yn adnabod hoff ddulliau plant unigol o ddysgu ac yn darparu cyfleoedd iddynt ymgolli yn eu gweithgareddau. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ba bryd i gamu yn ôl i arsylwi a pha bryd i ymyrryd i gyfoethogi'r dysgu. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o arsylwadau i asesu cynnydd plant. O ganlyniad, mae ganddynt adnabyddiaeth dda iawn o gamau datblygu nesaf y plant ac yn addasu'r ddarpariaeth yn fwriadus.

Mae trefn bendant i'r sesiynau sy'n galluogi ymarferwyr i hybu ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol. Maent yn defnyddio amserlen weledol yn grefftus er mwyn sicrhau bod plant yn deall trefn y diwrnod. Maent yn rhoi cyfleoedd i blant eistedd am gyfnodau priodol i ganolbwyntio ar dasg, a hefyd i grwydro'r lleoliad a gwneud dewisiadau eu hunain. Maent yn annog plant i ddangos parch at ei gilydd ac yn modelu cyd-chwarae cyfeillgar yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r plant yn ymddwyn yn dda.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant dysgu tu hwnt i'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn mynd am dro i siop y pentref ac yn cyfathrebu â'r staff wrth dalu am eitemau. Mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu synnwyr o ryfeddod ac awch yn y plant, er enghraifft wrth arsylwi pa adar sy'n ymweld â'u bwydir adar.

## Yr amgylchedd: Da

Mae'r arweinydd yn sicrhau amgylchedd dysgu a chwarae sy'n ddiogel, yn lân ac yn cynnig cyfleoedd da i blant ddarganfod tu mewn a thu allan i'r adeilad. Maent yn cwblhau asesiadau risg cynhwysfawr sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd i leihau neu atal risg i blant. Pan mae ymarferwyr yn canfod unrhyw beryglon, mae'r arweinydd yn delio â'r rhain yn gyflym ac yn effeithiol. Mae'r arweinydd yn cadw cofnod trylwyr o ba bryd mae'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau yn cael eu glanhau er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n lân ac mewn cyflwr addas. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio'n dda.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar a chartrefol ac mae digon o le i'r plant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y plant yn meithrin synnwyr o ymdeimlad o berthyn trwy arddangos esiamplau o'u gwaith ar y waliau. Mae ymarferwyr wedi trefnu'r ystafell chwarae yn addas gydag ardaloedd dysgu pwrpasol sy'n hybu datblygiad y plant ac yn cynnig profiadau chwarae cyfoethog. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau wedi'u hailgylchu ar gael sy'n hybu dealltwriaeth y plant o fywyd go iawn. Mae'r arweinydd yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i blant ddefnyddio'r ardal chwarae yn yr awyr agored i fwynhau chwarae gyda dŵr, y gegin fwd, dringo ac ymlacio yn y caban pren gyda llyfr. Mae'r amgylchedd yn caniatáu cyfleoedd addas i blant fynd i'r toiledau a golchi'u dwylo'n annibynnol.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael. Mae'r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i wneud dewisiadau yn annibynnol. Mae dewis addas o adnoddau ar gael er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ac o ddiwylliannau gwahanol, gan gynnwys amrywiaeth dda o lyfrau, doliau, gwisgoedd ac offerynnau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol

Mae gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun a'i staff. Mae hi'n llwyddo i greu awyrgylch dysgu braf a chadarnhaol, ac mae hi'n angerddol am ddatblygu'r Gymraeg. Mae'r arweinydd yn llwyddo i greu ymdeimlad cryf o gydweithio fel tîm gyda staff a gwirfoddolwyr sydd, yn ei dro, yn cael dylanwad da ar ddatblygiad plant y lleoliad.

Yn ddiweddar, diweddarwyd y datganiad o ddiben, sydd erbyn hyn yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio ddiogel yn briodol. Maent yn cynnal cyfarfodydd arfarnu ymarferwyr buddiol yn unol â'r gofynion.

Mae gan y lleoliad bwyllgor rheoli gweithgar a chydwybodol, sy'n ffocysu'n bennaf ar sut i godi arian ar gyfer adnoddau. Maent yn cadw mewn cyswllt rheolaidd i drefnu cefnogaeth i'r lleoliad trwy ddulliau anffurfiol. Yn ddiweddar, maent wedi dechrau ailgydio â chyfarfodydd mwy ffurfiol sy'n rhoi sylw i nifer o faterion strategol pwysig. Yn flaenorol, cynhaliwyd y trafodaethau hyn yn bennaf trwy negeseuon grŵp.

Mae gan arweinwyr brosesau priodol ar gyfer rheoli cyllideb y lleoliad. Gwneir defnydd addas o grantiau i gefnogi'r dysgu. Mae'r trysorydd yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor am sefyllfa ariannol gyfredol y lleoliad mewn modd anffurfiol yn ystod cyfarfodydd y pwyllgor. Fodd bynnag, mae agweddau o waith y pwyllgor rheoli, gan gynnwys natur yr adroddiadau cyllidol maent yn eu derbyn, yn parhau i fod rhy anffurfiol. Amlygwyd hyn yn argymhellion yr adroddiad diwethaf. At ei gilydd, mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd addas wrth ymateb i weddill argymhellion yr arolygiad diwethaf. Er enghraifft, mae plant yn symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd tu fewn a thu allan, a chânt gyfleoedd niferus i ddysgu am y cymunedau lleol a rhyngwladol.

Mae arweinwyr a staff yn myfyrio ar eu hymarfer yn rheolaidd. Maent yn trafod eu llwyddiannau a meysydd gwella'r lleoliad yn anffurfiol ac yn trefnu hyfforddiant buddiol. Er enghraifft, mae staff wedi cael hyfforddiant i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i wneud defnydd effeithiol o'r goedlan leol i ddatblygu medrau plant. Gwneir gwerthusiadau ffurfiol o'r ddarpariaeth mewn ychydig o'r ardaloedd dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi eu datblygu'n llawn.

Mae arweinwyr yn cydweithio’n agos â lleoliadau eraill, er enghraifft i rannu adnoddau fel sachau stori. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o’r ardal leol, gan gynnwys i ddarparu profiadau buddiol i’r plant yn y parc a’r goedlan leol. Mae gan y lleoliad lyfrgell bach, sef arddangosfa ger y fynedfa, sy’n gyfle buddiol i blant fenthyg neu gyfnewid llyfrau. Gwneir defnydd o ap er mwyn cadw mewn cyswllt agos â rhieni, er enghraifft i rannu lluniau o’r plant yn mwynhau eu gweithgareddau. Mae arweinwyr yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda rhieni, er enghraifft i egluro pa gyhyrau sy’n cyfrannu at ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar cryf.

Mae arweinwyr yn cynnal perthnasoedd buddiol â phartneriaid eraill. Er enghraifft, maent yn defnyddio’r gwasanaeth llyfrgell lleol yn effeithiol er mwyn galluogi plant i ymweld â’r fan lyfrgell bob mis. Yn ddiweddar, yn dilyn cau ysgol gynradd y pentref, maent wedi datblygu cysylltiadau â phennaeth ysgol gynradd arall ac yn dechrau cydweithio ar sefydlu prosesau trosglwyddo. Mae arweinwyr yn cydweithio’n effeithiol ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod leol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2025